**Cyngor Adfywio'r Economi**
**Nodiadau o'r cyfarfod a gynhaliwyd am 10:30am ddydd Mercher 13 Mehefin 2012 yn Swyddfeydd y Cynulliad Cenedlaethol, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**

**Y Gweinidogion a oedd yn bresennol**
Y Prif Weinidog
Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (ar gyfer eitem **4a** ar yr agenda)
Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (ar gyfer eitem **4b** ar yr agenda)
Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (ar gyfer eitem **4c** ar yr agenda)

**Y Rhanddeiliaid a oedd yn bresennol**
John Bennett, Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru (WSEC)
Paul Byard, Fforwm Cyflogwyr Peirianneg
Emma Watkins, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)
Peter Hughes, Cyngor Benthycwyr Morgeisi (CML)
Iestyn Davies, Cymorth Hyblyg i Fusnes (FSB)
Richard Houdmont, Sefydliad Siartredig Marchnata (CIM)
Mary James, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
Richard Price, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (HBF)
David Lermon, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW)
Robert Lloyd Griffiths, Sefydliad y Cyfarwyddwyr (IoD)
Martin Mansfield, Cyngres Undebau Llafur (TUC) Cymru
Julie Cook, TUC Cymru
Andy Richards, Uno'r Undeb
Alex Bevan, TUC Cymru (yn arsylwi)
David Morgan, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)
David Russ, Siambr Cymru
Derek Walker, Canolfan Cydweithredol Cymru
Nigel Keane, Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru (WSPU)
Mark Judd, WSPU
Heather Eason, WSPU

**Cynghorwyr Arbennig a Swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| James Price | Jeff Collins |
| Tracey Burke | Jonathan Price |
| Gerry Holtham | Huw Griffiths |

Andrew Jeffreys (ar gyfer eitem **4a** ar yr agenda)
Damien O'Brien (yn rhannol, ar gyfer eitem **4b** ar yr agenda)
Kath Palmer (ar gyfer eitem **4c** ar yr agenda)

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Huw Roberts, IoD | Nick Payne, Cymdeithas Cludiant Ffyrdd |
| Leighton Jenkins, CBI | Richard Jenkins, FMB |
| Phil Orford, FSB | Huw Thomas, NFU |
| Ben Cottam, ACCA | John Phillips, GMB |
| Alex Jackman, FSB | Lowri Morgan, Cymdeithas y Cyfreithwyr |
| Ian Gallagher, FTA | Mary James, NFU |

**1. Cyflwyniadau a sylwadau agoriadol**

1.1 Croesawodd y Prif Weinidog y rhai a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o Gyngor Adnewyddu'r Economi a chyflwynodd yr eitemau a oedd ar yr agenda.

1.2 Dywedodd y Prif Weinidog fod dwy brif eitem ar yr agenda.

1.2.1 Trafodaeth o amgylch y bwrdd. Yr oedd papurau ar amgylchiadau economaidd wedi'u cylchredeg ar gyfer y drafodaeth.
1.2.2 Gweithio ar y cyd i wella'r economi a oedd wedi'i gefnogi gan dri phapur.

1.3 Atgoffodd y Prif Weinidog y Cyngor ei fod wedi rhoi cyfrifoldeb i'r gweithgor ystyried ym mha fodd y gallai'r papur Partneriaid Cymdeithasol, a gyflwynwyd i'r cyfarfod ym mis Chwefror ar flaenoriaethau i economi Cymru, ddylanwadu ar agendâu'r Cyngor. Dywedodd y Prif Weinidog hefyd y byddai ffocws cyfarfod Medi 2012 ar y drydedd thema a ddynodwyd ac y byddai'r Arglwydd Green o'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau yn bresennol.

**Cam gweithredu: Y Gweithgor i ystyried cynnwys yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Medi.**

1.4 Esboniodd y Prif Weinidog y byddai'n rhaid i Jane Hutt adael y cyfarfod erbyn 11:10am ac y byddid yn cyflwyno eitem 4a ar yr agenda yn dilyn eitem 2 ar yr agenda.

**2. Nodiadau a chamau gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Chwefror 2012**

2.1 Cyflwynwyd yr eitem hon gan y Prif Weinidog. Yr oedd nodiadau'r cyfarfod blaenorol wedi'u cynnwys gyda phapurau'r cyfarfod. Cyfeiriodd at y chwe phwynt gweithredu gan ddweud y byddai un cam gweithredu yn cael sylw yn eitem pedwar heddiw, fod dau ohonynt yn parhau a bod tri wedi'u cwblhau.

2.2 Holodd y Prif Weinidog a oedd unrhyw faterion ynghylch y pwyntiau gweithredu ac ni chodwyd unrhyw beth.

2.3 Holodd y Prif Weinidog a oedd unrhyw faterion o gywirdeb ynghylch Nodiadau'r Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Chwefror 2012. Dywedodd Martin Mansfield nad oedd paragraff 3.9 o'r nodiadau yn cyfleu'n gywir yr hyn a ddywedodd. Gofynnodd y Prif Weinidog i'r Nodiadau gael eu diwygio er mwyn rhoi adlewyrchiad cywir o sylwadau Martin.

2.4 Dywedodd David Lermon hefyd fod enw Richard Houdmont wedi'i gamsillafu.

2.5 Cytunwyd bod y Nodiadau'n gywir yn amodol ar y ddau ddiwygiad uchod.

**Cam Gweithredu: Nodiadau 29 Chwefror i'w diwygio i gyfleu sylwadau Martin Mansfield a chywiro'r camsillafiad.**

**3. Eitem 3: Trafodaeth o amgylch y bwrdd yr Amgylchiadau Economaidd**

3.1 Cyflwynwyd yr eitem hon gan y Prif Weinidog a gwahoddodd Jonathan Price i wneud ychydig o sylwadau agoriadol.

3.2 Siaradodd Jonathan Price am ansicrwydd economi'r DU ac Ardal yr Ewro. Yn ôl rhai ffynonellau data, cafwyd darlun cymysg o'r sefyllfa.

3.3 Yna, agoroddd y Prif Weinidog yr eitem i'w thrafod.

3.4 Cyfrannodd Andy Richards gyda barn y byddai benthyca yn codi hyd at 2015, ac y byddai diffyg galw ynghyd â gostyngiad mewn cynhyrchiant yn arwain at golli incwm a swyddi. Dywedodd y dylai'r ffaith fod y bwlch yn y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru wedi culháu, o gymharu â'r DU, gael ei chroesawu fel arwydd o lwyddiant datganoli yng Nghymru.

3.5 Siaradodd Julie Cook am gyflogau rhanbarthol, gan nodi fod chwyddiant wedi gostwng ond nad oedd hynny'n rhoi ystyriaeth i'r gostyngiad mewn cyflogau real. Siaradodd am y cynnydd mewn cyflogaeth ran-amser a bod dau draean o'r bobl mewn swyddi o'r fath eisiau cyflogaeth amser llawn mewn gwirionedd. Dywedodd fod mwy o fenywod na dynion mewn swyddi rhan-amser. Ar fater cyflogau rhanbarthol dywedodd fod yr undeb yn gwrthwynebu hynny ond yn croesawu'r cynllun buddsoddi i hybu swyddi.

3.6 Mynegodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth bryder am y sefyllfa o ddiweithdra ymysg menywod a'r tueddiadau yn yr ardal hon. Siaradodd am yr anawsterau wrth ariannu gofal plant a'r broblem o adennill sgiliau i gael mynediad drachefn i'r farchnad swyddi. Crybwyllodd y Gweinidog faterion yn ymwneud â benthyciadau o'r banc a gorddrafftiau'n cael eu tynnu'n ôl, gan greu anawsterau i gwsmeriaid.

3.7 Esboniodd Richard Price fod gostyngiad yn nifer y tai sy'n cael eu gwerthu a'u cwblhau. Croesawydd y cynllun gwarantu morgeisi a chyfeiriodd at y modd yr oedd diffyg tir i'w ddatblygu yn dal y cynllun yn ei ôl. Pe bai rhagor o dir ar gael, lle gallai ei aelodau ddatblygu, yna byddent yn gwneud hynny.

3.8 Mynegodd Emma Watkins siom ynghylch y ffigurau CMC. Yr oedd hi wedi disgwyl i'r rhain wella yn 2013. Dywedodd fod y persbectif yng Nghymru yn cyfateb i raddau helaeth â phersbectif y DU ar yr ochr weithgynhyrchu. Siaradodd ar y Cyflwr Masnachu mewn cyfarfod diweddar o Gyngor CBI Cymru. Er bod rhai arwyddion da, yr oedd costau ynni yn peri cryn bryder. Adroddodd nad oedd rhai aelodau'n gallu adeiladu mewn rhai ardaloedd oherwydd nad oeddent yn gallu sicrhau caniatâd cynllunio a bod rhai cwmnïau yn troi staff dros dro yn staff amser llawn.

3.9 Adroddodd David Russ ar y cynnydd ymylol a gafwyd mewn hyder sy'n amlygu ei hun ymhlith ei aelodau. Ychwanegodd ei bod yn ymddangos fod twf cadarn yn y farchnad ryngwladol ond fod angen i ragor o fusnesau newydd adnabod cyfleoedd rhyngwladol. Dywedodd fod mwy o hyder ym maes busnesau sy'n dechrau a bod rhagor o bobl yn dod ymlaen i ddechrau busnesau. Dywedodd bod angen rhagor o ficro grantiau i gymell buddsoddi.

3.10 Nododd Peter Hughes fod pethau wedi tawelu gyda morgeisi o gymharu â thair neu bedair blynedd yn ôl, bod yr achosion o ôl-ddyledion ac adfeddiannu yn is na'r hyn a ragwelwyd oherwydd cyfraddau llog isel a goddefgarwch cynyddol ymysg benthycwyr. Yr oedd materion Ardal yr Ewro yn cyfyngu ar y cyflenwad ac mae hynny'n effeithio ar allu'r banciau i roi benthyg arian.

3.11 Dywedodd Derek Walker bod cwmnïau cydweithredol yn gwneud yn eithaf da ar ddechrau mis Ionawr a bod ychydig mwy o hyder yn y sector o gymharu â Busnesau Bach a Chanolig eu maint. Dywedodd fod rhai cleientiaid yn wynebu problemau fel colli grantiau, mynediad at gyllid.

3.12 Dywedodd Iestyn Davies y byddai'n croesawu deialog ar y math o gyllid arloesol ar gyfer busnes a fyddai'n gweithio yng Nghymru (e.e. rhwng cymheiriaid ac ar sail sawl ffynhonnell) a'r modd y gallai arian strwythurol weithio i Fusnesau Bach a Chanolig eu maint. Dywedodd fod cylch dieflig yn bodoli o ran hyder a buddsoddi. Dywedodd y dylem annog busnesau ffordd o fyw fel cam i entrepreneuriaeth.

3.13 Adroddodd Paul Byard ar weithio gyda busnesau i fuddsoddi mewn ceisio ysgogi allforion. Dywedodd y dylid cyfuno strategaethau ac y dylid alinio gwaith gydag anghenion y farchnad gyda Llywodraeth Cymru yn alinio ei gwaith mewn sgiliau, ac allforio, er enghraifft.

3.14 Gwnaeth y Prif Weinidog sylwadau ar sgiliau a buddsoddi a chyfeiriodd at y paneli sector a oedd wedi'u sefydlu i ddarparu aliniad yn y meysydd hyn. Byddai'n croesawu tystiolaeth gan yr Aelodau o feysydd o fylchau mewn sgiliau.

**Cam gweithredu: Gwybodaeth am dystiolaeth o fylchau mewn sgiliau i'w darparu, os yw ar gael, gan yr Aelodau**

3.15 Crybwyllodd David Morgan Faes Awyr Caerdydd a chafwyd diweddariad gan y Prif Weinidog y byddai tasglu ar fin cyfarfod i ddechrau mynd i'r afael â'r materion.

**4. Eitem 4: Gweithio gyda'n gilydd ar flaenoriaethau i wella'r economi.**

**4a. Eitem 4a: Cyflawni Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi.**

4a.1 Cyflwynwyd yr eitem hon gan y Prif Weinidog ac aeth rhagddi dan arweiniad y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ.

4a.2 Cyflwynwyd y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a gyhoeddwyd ar 22 Mai 2012 gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ. Dywedodd y Gweinidog fod y cynllun yn dangos yn glir ymrwymiad Llywodraeth Cymru tuag at dwf a swyddi. Diolchodd i'r Cyngor am eu hymrwymiad i'r cynllun a'u mewnbwn iddo.

4a.3 Dywedodd fod y cynllun yn ymwneud i raddau helaeth â'r modd yr ydym yn defnyddio'r dulliau a'r pwerau i benderfynu gwneud popeth a allwn mewn partneriaeth i wella'r economi yn yr amseroedd anodd hyn.

4a.4 Dywedodd y Gweinidog mai'r pwyntiau allweddol oedd datblygu polisïau i gymell twf ac i gryfhau'r economi. Mae'n ymwneud â'r modd yr ydym yn defnyddio ac yn crynhoi adnoddau i ychwanegu'r gwerth mwyaf, y modd yr ydym ni fel Llywodraeth yn gweithredu fel galluogydd i dwf er mwyn cynhyrchu swyddi.

4a.5 Ychwanegodd fod y cynllun yn gosod allan ein hegwyddorion a'n blaenoriaethau ar fuddsoddi yn yr economi gyda rhwydweithiau a seilwaith yr 21ain Ganrif. Mae'n anelu at fod yn glir ar feysydd fel cyllid arloesol ac ar weithio mewn partneriaeth gyda'r sector preifat, y sector cyhoeddus, y trydydd sector a phartneriaid cymdeithasol.

4a.6 Dywedodd y Gweinidog mai'r hyn sy'n bwysig yw'r camau a gymerwn tuag at weithredu'r cynllun hwn. Mae'n gosod allan flaenoriaethau cenedlaethol, fframwaith buddsoddi ar gyfer cynlluniau arwyddocaol ar lefel genedlaethol. Mae'n ymwneud â'r modd y caiff cyllid canolog ac ariannu arloesol eu defnyddio. Ceir saith o flaenoriaethau lefel uchel, megis cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y dwyrain a'r gorllewin, telegyfathrebu, cefnogi'r diwydiant ynni, a chefnogi tai.

4a.7 Dywedodd y Gweinidog wrth y Cyngor y bydd y fframwaith hwn yn berthnasol i'r broses o ddyrannu cyfalaf ar gyfer tai. Siaradodd y Gweinidog am elwa i'r eithaf ar y defnydd o arian strwythurol o Ewrop.

Mae angen ariannu buddsoddiadau o bob math. Dywedodd y Gweinidog y dylai Llywodraeth Cymru allu benthyca ac mae trafodaethau rhynglywodraethol yn mynd rhagddynt.

4a.9 Dywedodd Gerry Holtham fod y cynllun, fel y'i cyhoeddwyd, yn trafod prosiectau a ariannwyd yn llwyddiannus ar sail grantiau bloc ond nad oedd yn rhoi ystyriaeth i arian o ffynonellau eraill megis pwerau benthyca. Dywedodd mai'r dasg sydd gennym yw cyflymu'r rhaglen honno drwy'r broses o fenthyca ar gyfer prosiectau drud er mwyn galluogi iddynt gael eu cwblhau'n gynharach.

4a.13 Siaradodd y Gweinidog am brosiect Pont Trelái a gweithio gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality er mwyn cyflenwi rhagor o dai. Siaradodd am yr angen am help i weithredu ar y math hwn o drefniant arloesol er mwyn buddsoddi yn ein seilwaith i hybu twf sy'n gonglfaen i lwyddiant economaidd.

4a.14 Dywedodd David Russ fod y papur yn grynodeb da ac yn cynnig gweledigaeth gyffredinol. Dywedodd David Lermon ei fod yn bapur buddiol gyda thargedau i'w cyrraedd a holodd am yr Ardaloedd Menter.

4a.15 Dywedodd Andy Richards fod TUC Cymru yn croesawu'r pwerau ac yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i ganolbwyntio ar swyddi a thwf ym mhob buddsoddiad sylweddol. Mae'n croesawu hefyd yr ymdrechion i ddatganoli pwerau benthyca. Pryder ei aelodau yw'r gost gynyddol o ynni i gwmnïau. Teimlai y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio mwy ar y maes hwn. Dywedodd fod Uno'r Undeb wedi bod yn rhan allweddol o'r Ynys Ynni a bod y TUC wedi bod yn gyson eu cefnogaeth i'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y dwyrain a'r gorllewin.

4a.16 Croesawodd Richard Price gyflwyniad y cynllun gwarantu morgeisi. Gofynnodd am ragor o eglurder a sut y gallai'r cynllun hwn weithio a phwy fyddai yn y sefyllfa orau i ddarparu rhagor o wybodaeth.

4a.17 Gwnaeth Peter Hughes sylwadau ar gynllun tai Pont Trelái gan ddweud fod gweld y lefel hon o ymrwymiad i'r hyn y gellid ei gyflawni yn arwydd da o'r hyn y gellid ei wneud.

4a.18 Croesawodd Emma Watkins y Cynllun hwn, ei gyfeiriad strategol a'r cyfleoedd a oedd yn yr arfaeth. Adleisiodd sylwadau'r TUC ar y cysylltiadau trafnidaeth rhwng y dwyrain a'r gorllewin ac ynni, gan ddweud y gellid myfyrio ar y rhain a'u cydbwyso yn y cynllun. Soniodd wrth y Cyngor am fodelau cyllido y gwnaeth Cydffederasiwn Diwydiant Prydain lawer o waith arnynt ym maes seilwaith a buddsoddi. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn gobeithio gallu trafod gyda'r Cydffederasiwn y gwaith a gwblhawyd ganddynt ar fodelau cyllido seilwaith.

4a.19 Canolbwyntiodd y Gweinidog ar swyddi a thwf. Dywedodd wrth y Cyngor ei bod yn ymgysylltu â chynllun Seilwaith y DU. Ar fater

trydaneiddio, dywedodd fod angen i ni ymgysylltu'n llawn yn yr achos o blaid hyn a bod y Prif Weinidog yn arwain ar y maes hwn gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth a'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwybodaeth.

4a.20 Ar fater y Cynllun Gwarantu Morgeisi (MGS) dywedodd y Gweinidog fod Swyddogion yn y broses o lunio achos busnes. Siaradodd hefyd am fodel Pont Trelái lle'r oedd y llwybrau cyllido arloesol a ddilynwyd yn cynnwys edrych ar fodelau di-ddifidend.

4a.22 Ymatebodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i'r cwestiwn am Ardaloedd Menter drwy ddweud ei bod yn bwriadu elwa i'r eithaf ar yr hyn sydd ar gael ar gyfer yr Ardaloedd hyn. Dywedodd fod cadeiryddion yr Ardaloedd yn edrych ar eu hanghenion o ran eiddo, seilwaith ac adennill tir.

4a.25 Esboniodd y Prif Weinidog y sefyllfa yngylch y cynigion ar gyfer trydaneiddio. Ynghylch ynni, dywedodd ei fod wedi cyfarfod gyda defnyddwyr ynni sylweddol. Dywedodd fod prisiau yn y DU yn uchel o'u cymharu ag Ewrop ac mae hynny'n gwneud y DU yn llai atyniadol ar gyfer buddsoddi. Mae'r Prif Weinidog wedi mynegi hyn wrth Lywodraeth y DU.

4a.26 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ a adawodd y cyfarfod.

**4b. Agenda 4b Egwyddorion a Blaenoriaethau ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru 2014-20**

4b.1 Cyflwynwyd yr eitem hon gan y Dirprwy Weinidog Amaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, gyda Damien O'Brien fel y swyddog arweiniol.

4b.2 Siaradodd y Dirprwy Weinidog am y blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer rownd nesaf y Cronfeydd Strwythurol a'r egwyddorion a fyddai'n tywys eu gweithrediad, gan gynnwys ymgysylltu'n glos gyda busnesau yng Nghymru. Cyfeiriodd at ei ddatganiad i'r Cynulliad ar 8ted Mai a'r ymarferiad Myfyrio a gynhaliwyd yn gynharach eleni.

4b.3 Dywedodd wrth y Cyngor fod digwyddiad arbennig wedi'i gynnal ym mis Mawrth er mwyn ymgynghori gydag arweinwyr busnes, undebau ayb. a bod hyn wedi helpu i roi ffocws i'r drafodaeth ar flaenoriaethau buddsoddi at y dyfodol. Byddai'n rhaid i'r buddsoddiadau hyn gyd-fynd â'r fframwaith deddfwriaethol a dangos pwyslais cryf ar dwf cynaliadwy a swyddi.

4b.4 Pwysleisiodd y Gweinidog fod yn rhaid i'r Cronfeydd Strwythurol barchu egwyddor ychwanegedd. Mae'n rhaid i fuddsoddiadau fod yn ychwanegol at y cyllidebau a rhoi hwb i swyddi a thwf cynaliadwy.

4b.5 Croesawodd Iestyn Davies y datganiad. Tanlinellodd yr angen i gynnwys ymgysylltiad gyda Busnesau Bach a Chanolig eu maint yn y gwaith o gynllunio a darparu at y dyfodol. Hoffai weld y rownd nesaf o raglenni yn gwreiddio entrepreneuriaeth yn ddyfnach yng Nghymru a chanolbwyntio ar gael arian i fusnesau yn well.

4b.6 Yr oedd Martin Mansfield hefyd yn croesawu'r datganiad a dywedodd fod mwy o ffocws erbyn hyn ar weithrediad rhaglenni Ewropeaidd ac y dylai hynny barhau – megis targedu ardaloedd penodol fel ardal Blaenau'r Cymoedd. Yr oedd hyn yn debygol o gael yr effaith fwyaf ar economi Cymru. Awgrymodd hefyd fod meysydd eraill yn deilwng o gael cymorth.

4b.7 Dywedodd Robert Lloyd Griffiths mai ei flaenoriaeth bennaf fyddai seilwaith y ffyrdd ond ei fod yn croesawu datganiad y Llywodraeth yn ei hanfod.

4b.8 Holodd Paul Byard a fyddai modd coladu'r wybodaeth fel y gallem ddeall rhai o'r themâu/gwersi a oedd wedi'u dysgu yn sgil y rhaglenni presennol. Tanlinellodd Gronfeydd Strwythurol wedi'u cysylltu â chaffael cyhoeddus – yr oedd cyfle i gysylltu'r ddau beth er mwyn symbylu cynnydd o ran creu swyddi a datblygiad cynaliadwy a darparu ar eu cyfer.

4b.9 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r cyfranwyr am eu sylwadau, gan bwysleisio y bydd yn parhau i ymgysylltu drwy gydol y broses o ddatblygu'r rhaglenni newydd. Esboniodd fod gwaith ar y gweill i gydgordio rheolau a rheoliadau er mwyn symleiddio rhaglenni a noddwyd gan arian Ewropeaidd yn y gobaith y byddai hyn yn hwyluso pethau o ran ymgysylltu â'r rhaglenni. Dywedodd nad oedd y Comisiwn Ewropeaidd eisiau gweld gwariant sylweddol ar ffyrdd a phwysleisiodd fuddsoddiadau mwy cynaliadwy mewn seilwaith, gan gynnwys cludiant cyhoeddus ac ynni. Cydnabu'r pwynt a wnaed ynghylch caffael.

**4c Eitem 4c Y Papur Gwyn ar Dai**

4c.1 Aeth y Prif Weinidog ymlaen i eitem 4c a chyflwyno'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i arwain ar yr eitem hon ar yr agenda.

4c.2 Siaradodd y Gweinidog am fanteision tai da i iechyd a lles pobl a bod buddsoddi mewn tai yn rhoi hwb i'r economi. Soniodd hefyd am y sialensiau o ran tai a'n blaenoriaethau strategol fel gwella ansawdd a chyflenwad tai.

4c.3 Dywedodd y Gweinidog wrth y Cyngor am y Papur Gwyn ar Dai gan esbonio bod angen darparu rhagor o dai o bob deiliadaeth drwy dai fforddiadwy, adfer eiddo gwag a drwy fath newydd o berchenogaeth megis tai cydweithredol.

4c.4 Gan osod allan ei fwriad i Lywodraeth Cymru feddu ar rôl stiwardiaeth y system i oruchwylio'r gyfundrefn dai yn ei chyfanrwydd, esboniodd y byddai'n ymyrryd pan oedd angen a gosod nod o gynyddu'r cyflenwad o dai.

4c.5 Dywedodd y Gweinidog y bydd targedau'n cael eu gosod ar gyfer cyflenwi tai ac yr oedd yn dymuno sicrhau ffyrdd eraill o ariannu tai ac ymagweddau newydd tuag at dai. Soniodd am gyflymu'r rhaglen rhyddhau tir ar gyfer cartrefi gyda chynllun Melin Trelái yng Nghaerdydd yn enghraifft o Gyfrwng at Ddibenion Arbennig rhwng Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Adeiladu'r Principality i ddarparu tai.

4c.7 Gan droi at y system gynllunio, dywedodd y Gweinidog fod gan y system gynllunio rôl i'w chwarae o ran darparu tai a bod angen i awdurdodau lleol hwyluso hyn.

4c.8 Yr oedd Richard Price yn croesawu cyfarwyddyd y Papur Gwyn a'r ffaith ei fod yn cydnabod deiliadaethau o bob math. Mae'n croesawu'r cam o atgyfnerthu'r canllawiau cenedlaethol ac yn awgrymu mai'r hyn sydd ei angen yw mabwysiadu a diweddaru Cynlluniau Datblygu Lleol. Crybwyllodd y gellid gosod targedau rhanbarthol ar gyfer tai ac awdurdodau lleol sy'n cyfranogi yn hyn gydag eraill. Holodd sut y byddai'r Cynllun Gwarantu Morgeisi yn gweithio yn hyn o beth.

4c.9 Dywedodd Peter Hughes ei fod yn bapur uchelgeisiol a chroesawodd yr ymagwedd a'r weledigaeth gyffredinol a phwysleisiodd y rôl allweddol y mae tai yn ei chwarae ym maes adfywio. Nid pwrpas y Cynllun Gwarantu Morgeisi yw annog benthyca anghyfrifol gan fod fforddiadwyedd yn allweddol bwysig.

4c.10 Dywedodd Iestyn Davies bod ei aelodau o blaid y Cynllun Gwarantu Morgeisi a chyfeiriodd at gysylltiadau ar draws portffolios. Gofynnodd ym mha fodd y gallem uchafu budd a chyflawni effaith o ddiferu i lawr yn araf. Awgrymodd y gellid uchafu rôl sefydliadau tai ynghyd â chaffael lleol effeithiol.

4c.11 Croesawodd Derek Walker yr ymrwymiad i dargedau a thai cydweithredol. Dywedodd ei bod yn teimlo fel pe bai Cymru yn arwain yn y maes hwn. Ychwanegodd fod llawer o'r arbenigedd yn y maes hwn y tu allan i Gymru ond y dylid datblygu arbenigedd o fewn Cymru.

4c.12 Croesawodd Emma Watkins y ddeialog adeiladol gyda Gweinidogion. Byddai Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn croesawu eglurhad ar gynllun indemniad. Mae camau i roi hwb cychwynnol i'r economi ac i'r sector yn bwysig megis gweithio gyda chydweithwyr yn y Llywodraeth i ryddhau tir a mynd i'r afael â chynllunio.

4c.13 Croesawodd Martin Mansfield yr ymagwedd ond pwysleisiodd bwysigrwydd creu swyddi a chyfleoedd hyfforddiant er mwyn cynyddu sgiliau'r gweithlu, ynghyd â darparu polisïau caffael positif.

4c.14 Dywedodd David Morgan yr hoffai weld anogaeth i unedau adwerthu gwag cael eu troi'n eiddo preswyl fel opsiwn gwerthfawr i ddod â thir ger bron ar gyfer cartrefi.

4c.15 Siaradodd David Russ am restr o ddymuniadau a mynegodd bryderon ynghylch y gallu i gyflawni popeth. Byddai opsiynau ar gyfer ffurfiau newydd o gyllido a ffyrdd newydd o gael at dir yn hollbwysig.

4c.16 Yr oedd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn croesawu'r sylwadau a wnaed. Cyfeiriodd at rôl yr awdurdodau lleol wrth gyflawni'r gwaith ac at y Mesur Tai sy'n creu disgwyliadau uwch ar eu cyfer.

4c.18 Dywedodd y Gweinidog y byddai'r cynllun indemnio morgeisi yn cael ei deilwra yn unol ag anghenion Cymru.

4c.19 Siaradodd am ddiwygio deiliadaethau, codi safonau yn y sector rhentu preifat. Ychwanegodd na fyddwn yn diwallu anghenion tai poblogaeth Cymru oni bai ein bod yn annog 'adeiladu i osod' a 'phrynu i osod'.

4c.20 Siaradodd y Gweinidog am gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol – a'u rôl hwy o ran caffael. Wrth gyfeirio at dai cydweithredol, dywedodd bod tai cydweithredol yn ymwneud â chymdeithasoli risg, dod ynghyd mewn ffordd gytunedig i gael morgais er mwyn bod yn berchen ar eiddo.

4c.21 Dywedodd Emma Watkins bod angen i'r Mesur Cynllunio gyd-fynd yn dda a'r Mesur Tai a bod angen cyflawni gwaith i adnabod yr arferion gorau mewn sefydliadau a'u gwneud yn ganolog.

4c.22 Gwnaeth Richard Price sylwadau am y modd y gall newidiadau i reoliadau adeiladu gynyddu costau adeiladau a gofynnodd sut y gwelai'r Gweinidog hyn yn effeithio ar y gwaith o gyrraedd targedau.

4c.23 Dywedodd y Gweinidog ei bod yn ystyried y materion hyn. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r agenda ansawdd ac y dylai hynny gael ei ymgorffori yn ein cyfrifiadau a'n gwaith cynllunio.

**<u>Eitem 5: Unrhyw fater arall</u>**

5.1 Gofynnodd y Prif Weinidog a oedd unrhyw fusnes arall ac ni chafwyd unrhyw sylwadau. Diolchodd i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniadau gan atgoffa'r aelodau y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 24 Medi 2012, ac y byddai'r Arglwydd Green yn bresennol. Yna, daeth y Prif Weinidog â'r cyfarfod i ben.